Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

# TAFLEN ADRODDIAD / CRYNODEB PENDERFYNIAD

**DIBEN: PENDERFYNIAD Y COMISIYNYDD – CYF.** [redacted] DL1 074

**Amseru: Brys**
**(Mae angen penderfyniad ar unwaith er mwyn hysbysu sefyllfa derfynol y gyllideb ar gyfer 2018/19)**

**Amseru: Lleihau'r gyllideb ar gyfer y cytundeb camddefnyddio sylweddau – 2018/19**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Penderfyniad ynghylch cyllid er mwyn hysbysu'r gyllideb gomisiynu ar gyfer 2018/19

## Crynodeb Gweithredol:

Ym mis Ebrill 2015, rhoddwyd cytundeb i Wasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed ar gyfer adnabod troseddwyr sy'n camddefnyddio sylweddau ac ymgysylltu â nhw o'r adeg y maent yn cael eu harestio hyd at y ddedfryd (dedfryd gymunedol a dedfryd o garchar), ac ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar a thu hwnt.

Gwobrwywyd y cytundeb hwn fel ymarfer comisiynu ar y cyd, ochr yn ochr â Chyngor Sir Benfro (bancwr), Gweithrediaeth Bwrdd Cynllunio Ardal Dyfed, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Chyngor Sir Ceredigion. Daw cyfanswm y cytundeb i £1.58 miliwn y flwyddyn, ac mae CHTh Dyfed-Powys yn cyfrannu £275,000 y flwyddyn.

Dros y misoedd diwethaf, cynhaliwyd trafodaethau gyda chydweithwyr yng Ngwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed ynglŷn â'r lefelau ariannu cyfredol a ddarperir gan y CHTh, yng ngoleuni gofyniad parhaus y Comisiynydd i fonitro a gwerthuso lefelau ariannu ar gyfer yr holl wasanaethau a gomisiynir, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn dal yn canolbwyntio ar fregusrwydd ac yn adnabod risg adeg y pwynt cyswllt cyntaf.

Yn ogystal â'r uchod, mewn cyfarfod diweddar o'r Gweithrediaeth Bwrdd Cynllunio Ardal, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei fwriad i roi mwy o arian i Fyrddau Iechyd er mwyn mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau.

## Argymhelliad:

Yn dilyn trafodaethau â Chyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus Cymru, gofynnir i'r Comisiynydd gymeradwyo gostyngiad o £60,000 yn swm cyffredinol y cyfraniad tuag at gytundeb camddefnyddio sylweddau Dyfed, gan leihau'r cyfanswm a roddir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu o £275,000 i £215,000.

## Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf fuddiant personol neu niweidiol yn y mater hwn, ac rwyf yn dod i'r penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad yn y Gwasanaethau Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod / Nid wyf yn cymeradwyo'r cais uchod / Rwy'n nodi'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys o fewn yr adroddiad (dileer fel y bo'n briodol)

| | |
|---|---|
| **Llofnod:** | **Dyddiad:** 16/7/2018 |